Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae addysg yn dechrau yn y cartref

Adnoddau mathemateg ar gyfer rhieni

Cyfnod Allweddol 2 – 7 i 11 mlwydd oed

I'w ddefnyddio gyda'n fideos mathemateg sydd ar gael ar
facebook.com/dechraucartref

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

ISBN: 978-1-4734-6374-5 • Rhif WG: WG28063 • © Hawlfraint y Goron 2016

Cynnwys

Cyflwyniad.....3

Cyfnod Allweddol 2 – 7 i 11 mlwydd oed
Ffracsiynau.....4
Degolion.....5
Canrannau.....6
Cymarebau.....7
I gael rhagor o wybodaeth.....8

I'w ddefnyddio gyda'n fideos mathemateg sydd ar gael ar
facebook.com/dechraucartref

mae addysg
yn dechrau
yn y cartref
education
begins
at home

Cyflwyniad

Mae'r adnoddau hyn i'w defnyddio ar y cyd gyda fideos arlein facebook.com/dechraucartref. Bwriad yr adnoddau yw cefnogi rhieni a gofalwyr sy'n dymuno cefnogi eu plant gyda gwaith mathemateg yn y cartref. Mae yna nifer o ddulliau gwahanol yn cael eu defnyddio gan athrawon ar draws y cwricwlwm, felly gofynnwch i athro/athrawes eich plentyn pa ddull sy'n berthnasol.

I'w ddefnyddio gyda'n fideos mathemateg sydd ar gael ar facebook.com/dechraucartref

Cyfnod Allweddol 2 – 7 i 11 mlwydd oed
Ffracsiynau

Mae gan Rhys £54.00. Mae'n gwario tri chwarter ei arian. Faint o arian sydd ganddo ar ôl wedyn? Defnyddiwch ddull y stribed rhif isod.





Tri chwarter £54 = £40.50
Er mwyn dod o hyd i'r swm o arian sydd ar ôl ganddo:
£54 - £40.50 = £13.50

I'w ddefnyddio gyda'n fideos mathemateg sydd ar gael ar
facebook.com/dechraucartref

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

Cyfnod Allweddol 2 – 7 i 11 mlwydd oed
Degolion

Nodyn i rieni: Gan ddefnyddio papur neu cerdyn, torrwch rhai cardiau sy'n cynnwys y ffracsiynau a'r degolion isod. Defnyddiwch bren mesur i greu stribed wedi'i rannu i mewn i ddegfedau – dyma'r stribed rhif.



Rhowch y ffracsiynau ar y stribed rhif gan annog eich plentyn i roi cardiau'r degolion yn yr un man â'r ffracsiwn sy'n cyfateb yn gywir.



I'w ddefnyddio gyda'n fideos mathemateg sydd ar gael ar
facebook.com/dechraucartref

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

Cyfnod Allweddol 2 – 7 i 11 mlwydd oed
Canrannau

Mae gostyngiad o 30% oddi ar eitem gwerth £50. Faint mae'r eitem wedi gostwng mewn pris?



Defnyddiwch y stribed rhif er mwyn rhannu'r £50 yn ddeg rhan gyfartal.



10% o £50 = £5
£5 x 3 = £15
Felly 30% o £50 yw £15

I'w ddefnyddio gyda'n fideos mathemateg sydd ar gael ar
facebook.com/dechraucartref

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

Cyfnod Allweddol 2 – 7 i 11 mlwydd oed
Cymarebau

Yn y clwb gymnasteg, mae dau fachgen am bob tair merch. Mae 15 o ferched yn y clwb. Faint o fechgyn sydd yn y clwb?

Gan ddefnyddio'r tabl isod, gallwch weld patrwm yn datblygu (lluosrifau o 2 yng ngholofn y bechgyn, a lluosrifau o 3 yng ngholofn y merched).

Nifer y bechgyn	Nifer y merched
2	3
4	6
6	9
8	12
10	15
20	30
30	45

Felly am bob 15 merch, mae 10 bachgen.

Mae nifer y bechgyn yn ddau draean nifer y merched, a nifer y merched yn un waith a hanner nifer y bechgyn.

Gallwch ysgrifennu'r gymhareb fel 10:15 – sef yr un gwerth â 2:3, 4:6, 6:9, 8:12 ayb.

I'w ddefnyddio gyda'n fideos mathemateg sydd ar gael ar facebook.com/dechraucartref

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

Gwybodaeth ddefnyddiol

Gofynnwch i athro/athrawes eich plentyn am yr apiau, gemau a'r gwefannau diweddaraf a fydd yn cynorthwyo sgiliau mathemateg eich plentyn. Yn y cyfamser dyma rai awgrymiadau.

Apiau a gemau

Apps 4 Primary Schools*
Cyfri gyda Cyw
Rhifau
Tiwtor Mathemateg
Ap Sgìl-iau
Apiau Cymraeg gyda gweithgareddau mathemateg llawn hwyl - www.ginormous.solutions/cym

Gwefannau

Hwb – Y platfform dysgu sy'n llawn adnoddau defnyddiol
http://hwb.wales.gov.uk
National Numeracy* – Adnoddau sy'n llawn o syniadau a gweithgareddau am ddim ar gyfer y teulu cyfan.
http://www.nationalnumeracy.org.uk/family-maths-toolkit
Sumdog* – gwefan sy'n cynnwys gemau er mwyn gwneud mathemateg yn bwnc llawn sbri. Mae'n bosib chwarae nifer o'r gemau am ddim, gydag opsiwn tanysgrifio ar gyfer nodweddion ychwanegol.
www.sumdog.com
Cyw – Adnoddau Cymraeg sy'n cynnwys gemau llawn hwyl (yn cynnwys rhifau) i'w chwarae gyda'ch plant. http://www.s4c.cymru/cyw/cy/games/
Oxford Owl* – Fideos ac adnoddau defnyddiol i gynorthwyo eich plant gyda mathemateg yn y cartref. www.oxfordowl.co.uk
Camau Cyfri – Gwefan rhifau i gefnogi eich plant yn yr iaith Gymraeg.
http://www.bbc.co.uk/cymru/dysgu/camaucyfri/

*Ar gael yn Saesneg yn unig

I'w ddefnyddio gyda'n fideos mathemateg sydd ar gael ar
facebook.com/dechraucartref

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**